

Polisiâu a Safonau Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru

Tachwedd 2021

Fersiwn 4

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Polisi 1 – Cyflawnder y Cynnig a Chwmpas	10
Polisi 2 - Cydsyniad ar sail Gwybodaeth	14
Polisi 3 – Casglu Samplau yn Amserol.....	16
Polisi 4 – Ansawdd y Sampl Smotyn Gwaed a Gwybodaeth ar y Cerdyn	20
Polisi 5 – Derbyn Sampl yn y Labordy Sgrinio Newydd-anedig yn Amserol	24
.....	24
Polisi 6 - Prosesau Cardiau Smotyn Gwaed yn Amserol.....	25
Polisi 7 - Derbyn i Ofal Clinigol yn Amserol	28
Polisi 8 – Anfon Canlyniadau at Rien i yn Amserol	32

Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru POLISIÂU A SAFONAU

CYFLWYNIAD

Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n gyfrifol am gynllunio, paratoi a chyflawni rhaglen Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru. Mae'r rhaglen yn cynnig sgrinio smotyn gwaed i bob babi newydd-anedig sy'n byw yng Nghymru pan fydd yn 5 diwrnod oed a phob babi sy'n dod i fyw yng Nghymru, hyd at un oed.

Mae'r polisiâu a safonau yn y ddogfen hon yn amlinellu'r hyn sydd angen ei gyflawni ym mhob agwedd ar y rhaglen.

Datblygwyd System Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru i gefnogi'r gwaith o reoli rhaglen ddiogel a chynaliadwy ledled Cymru. Mae'r system hon yn casglu ac yn coladu gwybodaeth ar draws y rhaglen er mwyn monitro ansawdd sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig ac yn darparu adroddiadau sicrwydd ansawdd ac adroddiadau rheoli yn seiliedig ar y polisiâu a'r safonau.

Mae System Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru hefyd yn nodi babanod y mae'r rhaglen yn disgwyl derbyn cerdyn smotyn gwaed ar eu cyfer neu gadarnhad bod y prawf wedi'i wrthod, ac yn rhoi gweithdrefnau di-feth ar waith ar gyfer babanod sydd o bosibl wedi mynd drwy'r rhwyd.

Diffiniadau

Babanod cymwys (newydd-anedig)

- Babi sy'n preswyllo yng Nghymru pan fydd yn 5-6 diwrnod oed
- Babi sy'n preswyllo yng Nghymru pan fydd yn 5-6 diwrnod oed, ond sydd wedi'i gofrestru gyda meddyg teulu yn Lloegr
- Babi sy'n preswyllo fel arfer y tu allan i Gymru os yw o dan ofal arferol bydwraig yng Nghymru pan fydd yn 5-6 diwrnod oed

Nid yw babanod y cofnodwyd eu bod wedi marw cyn eu bod yn 5 diwrnod oed yn gymwys.

Babanod cymwys (pob babi)

- Pob babi hyd at flwydd oed sy'n preswyllo yng Nghymru

- Babi sy'n preswyllo y tu allan i Gymru os yw o dan ofal arferol bydwaig yng Nghymru ar yr adeg y dylid cynnal y prawf smotyn gwaed newydd-anedig

Nid yw babanod y cofnodwyd eu bod wedi marw cyn eu bod yn 5 diwrnod oed yn gymwys.

Canlyniad sgrinio positif

Nid yw canlyniadau sgrinio yn gwbl bendant. Yn hytrach maent yn rhoi canlyniadau rhagdybiol. Canlyniad sgrinio positif yw canlyniad sy'n dangos bod y plentyn yn debygol o fod â'r cyflwr y caiff ei sgrinio ar ei gyfer. Weithiau bydd pobl yn dweud bod y plentyn wedi'i effeithio gan y cyflwr. Yna caiff y profion sgrinio positif eu cadarnhau gan ddefnyddio profion diagnostig. Er enghraifft, mae canlyniad sgrinio positif ar gyfer hypothyroidedd cynhenid (CHT) yn golygu ei bod yn debygol iawn bod gan y plentyn CHT, ond rhaid cadarnhau hyn drwy brofion pellach. Bydd canlyniad sgrinio positif yn cael ei nodi fel un a 'amheuir'.

Canlyniad sgrinio negatif

Nid yw canlyniadau sgrinio yn gwbl bendant. Yn hytrach maent yn rhoi canlyniadau rhagdybiol. Canlyniad sgrinio negatif yw canlyniad sy'n awgrymu ei bod yn annhebygol iawn bod gan y plentyn y cyflwr y mae'n cael ei sgrinio ar ei gyfer. Weithiau bydd pobl yn dweud bod y canlyniad yn 'normal'. Er enghraifft, mae canlyniad sgrinio negatif ar gyfer ffibrosis systig (CF) yn golygu ei bod yn debygol iawn NAD oes gan y plentyn CF. NID yw'r canlyniad sgrinio negatif hwn yn cael ei gadarnhau fel arfer drwy brofion pellach, ond tybir nad yw'r plentyn yn dioddef o'r cyflwr. Bydd canlyniad sgrinio negatif yn cael ei adrodd fel achos 'nad amheuir'.

Canlyniad pendant

Mae unrhyw un o'r canlynol yn ganlyniad pendant; achos nad amheuir, achos a amheuir, achos nad amheuir – anhwylder neu gludydd arall. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ganlyniadau a brofwyd drwy DNA ar gyfer anhwylderau'r crymangelloedd. Ar gyfer babanod sy'n hŷn nag 8 wythnos oed, mae 'heb eu profi' am CF hefyd yn ganlyniad pendant.

Diwrnodau Calendr

Diwrnodau calendr yw'r holl ddiwrnodau mewn mis gan gynnwys penwythnosau a gwyliau. Ar gyfer rhai o'r safonau mae'r amserlenni yn cyfeirio at ddiwrnodau calendr oherwydd bod angen clinigol am amser diffiniol ar gyfer cymryd cam gweithredu. Er enghraifft, dylid cymryd ail sampl y gellir ei osgoi o fewn tri diwrnod calendr.

Diwrnodau gwaith

At ddiben sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig, dydd Llun tan ddydd Gwener yw'r diwrnodau gwaith ar hyn o bryd ac eithrio gwyliau banc. Cyfeirir at ddiwrnodau gwaith yn y safonau er mwyn ystyried y diwrnodau

gwaith arferol ar gyfer y Labordy Sgrinio Newydd-anedig a'r Post Brenhinol.

Arolygon rhieni/gwarcheidwaid

Bydd arolygon rhieni/gwarcheidwaid yn cael eu cynnal i gasglu barn rhieni/gwarcheidwaid ynglŷn â'u profiad o sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig. Defnyddir yr arolygon hyn hefyd i fonitro perfformiad Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru o ran safonau *cydsyniad ar sail gwybodaeth a darparu gwybodaeth*. Bydd yr arolwg yn cynnwys barn y rhai sy'n derbyn sgrinio a hefyd y rhai sy'n gwrthod sgrinio.

Y Cyflyrau

Hypothyroidedd cynhenid (CHT)

Cyflwr yw hypothyroidedd cynhenid (CHT) lle nad yw chwarsen thyroid y babi yn datblygu neu'n gweithio'n iawn ac yn methu cynhyrchu'r hormon thyroid o'r enw thyrocsin. Mae angen thyrocsin ar gyfer twf a datblygiad arferol. Heb thyrocsin, nid yw babanod yn tyfu'n iawn a gallant ddatblygu problemau corfforol ac anableddau dysgu difrifol a pharhaol. Gellir trin babanod sydd â CHT yn gynnar gyda thabledi thyrocsin a bydd hyn yn eu galluogi i ddatblygu'n normal.

Ffibrosis systig (CF)

Mae ffibrosis systig (CF) yn un o anhwylderau mwyaf cyffredin y DU sy'n cael ei etifeddu ac yn cyfyngu ar fywyd. Anhwylder yw CF lle mae symudiad annormal halen a dŵr i mewn ac allan o gelloedd yn achosi i fwcws trwchus a gludiog gronni. Mae hyn yn digwydd yn arbennig yn yr ysgyfaint a'r system dreulio, gan wneud i bobl â CF fod yn dueddol o gael heintiau ar y frest a chamamsugno yn y perfedd. Mae gan bobl â CF sy'n cael diagnosis drwy sgrinio newydd-anedig ysgyfaint sy'n gweithredu'n well ar gyfartaledd ac maent yn cael eu maethu'n well na'r rhai sy'n cael diagnosis drwy gyflwyniad clinigol. Gweithrediad yr ysgyfaint a maeth yw'r rhagfynegyddion cryfaf o ddisgwyliad oes mewn CF.

Anhwylderau metabolig sy'n cael eu hetifeddu (IMD):

-Diffyg dadhydrogenas asyl-CoA cadwyn-ganolig (MCADD)

Anhwylder prin sy'n cael ei etifeddu yw MCADD lle mae diffyg yn yr ensym dadhydrogenas asyl-CoA cadwyn-ganolig sydd ei angen i ddadelfennu mathau penodol o fraster sydd wedi'i storio (asid brasterog cadwyn-ganolig).

Mae asidau brasterog yn gronfa egni bwysig yn ystod cyfnodau pan na fwyteir llawer o galoriau, cyfnodau maith rhwng prydau neu yn

ystod heintiau a salwch. O ganlyniad i beidio â gallu defnyddio eu cronfeydd braster wrth gefn, mae babanod neu blant sydd ag MCADD yn defnyddio glwcos yn gyflym a gallant ddatblygu hypoglycaemia. Mae'r lefelau uchel o asidau brasterog wedi'u hymddatod yn rhannol a chrynodiadau glwcos gwaed isel yn gallu arwain at argyfwng metabolig, gyda symptomau difrifol sy'n bygwth bywyd gan gynnwys bod yn gysglyd, trawiadau, niwed i'r ymennydd a hyd yn oed marwolaeth. Gall MCADD achosi marwolaeth yn yr argyfwng metabolig cyntaf a brofir.

Mae babanod neu blant yr effeithir arnynt fel arfer yn iach hyd nes y daw symptomau a allai fygwth bywyd i'r amlwg.

Mae sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig yn golygu y gellir nodi babanod sydd ag MCADD yn gynnar. Mae rheoli babanod ag MCADD yn canolbwyntio ar osgoi argyfyngau metabolig drwy ddilyn amserlen fwydo 'ddiogel' reolaidd, a mynd ati'n weithredol i reoli salwch twymynol neu chwydu. Gall y gofal hwn atal salwch difrifol a galluogi babanod ag MCADD i ddatblygu'n arferol.

-Ffenylcetonwria (PKU)

Mae ffenylcetonwria (PKU) yn gyflwr prin a etifeddwyd lle mae ffenylalanin yn cronni yn y corff. Mae ffenylalanin yn asid amino ac mae'n bresennol mewn llawer o fwydydd. Mae'r cronniad o ffenylalanin yn niwrowenwynol ac yn niweidiol i'r ymennydd. Os nad yw PKU yn cael ei drin gall achosi anabledd meddyliol difrifol a pharhaol.

Mae sgrinio'n fuddiol oherwydd gellir atal effeithiau andwyol PKU os bydd y driniaeth ar gyfer yr anhwylder yn dechrau'n gynnar.

Argymhellir y dylai'r driniaeth ddechrau erbyn 14 diwrnod oed er mwyn lleihau effeithiau andwyol.

Rheolir babanod sydd â PKU drwy ddeiet cyfyngol o ran ffenylalanin gydag atchwanegiadau.

-Clefyd wrin surop masarn (MSUD)

Cyflwr prin sy'n cael ei etifeddu yw clefyd wrin surop masarn (MSUD) sy'n atal ymddatod rhai o'r blociau adeiladu mewn protein, sef yr asidau amino lewsin, isolewsin a falin yn y gwaed.

I bobl gyda MSUD, gall bwyta symiau arferol o brotein achosi i'r asidau amino hyn gronni yn y gwaed mewn ffordd niweidiol. Mae llawer o fabanod ag MSUD yn mynd yn sâl ychydig ddyddiau ar ôl cael eu geni. Heb driniaeth, mae hyn yn arwain at goma a niwed parhaol i'r ymennydd. Ymysg plant hŷn gall salwch bach, fel haint ar

y frest neu anhwylder ar y stumog, arwain at broblemau difrifol. Fel gyda babanod, gall hyn arwain at goma oni chaiff ei drin yn gywir.

Gellir trin MSUD gyda deiet sy'n isel mewn protein. Mae angen trefn wahanol pan fydd y plentyn yn sâl, ac efallai y bydd angen iddo fynd i'r ysbyty. Gelwir y cyflwr yn glefyd wrin surop masarn oherwydd gall lefelau uchel o'r asidau amino hyn achosi arogl melys anghyffredin mewn wrin a chwys.

-Asidaemia isofalerig (IVA)

Cyflwr prin sy'n cael ei etifeddu yw asidemia isofalerig (IVA) sy'n atal ymddatod bloc adeiladu protein, sef yr asid amino lewsin. Mae hyn wedyn yn achosi i sylwedd niweidiol sy'n cael ei alw'n asid isofalerig gronni yn y gwaed. Gall plant sydd ag IVA fynd yn sâl iawn. Os nad yw'n cael ei drin, gall hyn arwain at goma a niwed parhaol i'r ymennydd. Mae rhai babanod yn dechrau datblygu symptomau argyfwng metabolig yn nyddiau neu wythnosau cyntaf bywyd. Gall y symptomau hyn gynnwys bwydo gwael, anniddigrwydd, bod yn gysglyd, chwydu, anawsterau anadlu ac anadlu cyflym ac oerfel. Os nad yw'r babi'n cael ei drin gall ddirywio, cael ffitiau, mynd yn anymwybodol a bod mewn perygl o farw.

Mae sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig yn golygu y gellir nodi babanod sydd ag IVA yn gynnar a rhoi triniaeth iddynt, a gellir sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o sut i reoli eu babi os bydd yn mynd yn sâl. Nod triniaeth yw lleihau croniad tocsinau sy'n gallu achosi argyfwng metabolig ac anawsterau dysgu. Rheoli deietegol yw hyn a meddyginiaeth ac mae angen ei wneud gyda chyingor gan dîm metabolig arbenigol gan gynnwys deietegydd arbenigol. Mae'r babi'n cael deiet protein isel gyda'r nod o leihau'r lewsin. Mae bwydydd yn cael eu mesur i sicrhau bod y swm cywir o brotein yn cael ei fwyta bob dydd gyda digon ar gyfer twf a datblygiad arferol.

-Asidwria glwtarig math 1 (GA1)

Cyflwr prin sy'n cael ei etifeddu yw asidwria glwtarig math 1 (GA1) sy'n atal ymddatod rhai blociau adeiladu protein, yn arbennig yr asidau amino lysîn a thryptoffan, a gall achosi croniad niweidiol o sylwedd o'r enw asid glwtarig yn y gwaed.

Mae babanod sydd â GA1 mewn perygl o ddatblygu argyfwng metabolig pan fydd ganddynt salwch (fel haint neu chwydu), a gall y symptomau hyn gynnwys bwydo gwael, llacrwydd a bod yn gysglyd. Os nad yw'r babi'n cael ei drin gall ddirywio, mynd yn anymwybodol a mynd i goma. Yn anffodus ar ôl coma bydd y rhan

fwyaf o fabanod neu blant wedi dioddef niwed parhaol i'r ymennydd. Mae'r niwed i'r ymennydd yn achosi problemau o ran rheoli cyhyrau sy'n gallu achosi anawsterau sy'n gysylltiedig â symud (ystum annormal y corff a symudiadau ysgytiol anrheoledig), bwydo ac anadlu.

Mae sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig yn golygu y gellir nodi babanod sydd â GA1 yn gynnar a rhoi triniaeth iddynt, a gellir sicrhau bod rhieni'n ymwybodol o sut i reoli eu babi os bydd yn mynd yn sâl.

Nod triniaeth yw lleihau cronïad tocsinau sy'n gallu achosi argyfwng metabolig a niwed i'r ymennydd. Rheoli deietegol yw hyn yn bennaf ac mae angen ei wneud gyda chynghor tîm metabolig arbenigol gan gynnwys deietegydd arbenigol. Bydd y babi'n cael deiet protein isel i leihau'r asidau amino lysîn a tryptoffan yn y deiet.

-Homosystinwria (HCU)

Cyflwr prin sy'n cael ei etifeddu yw homosystinwria (HCU) sy'n atal ymddatod bloc adeiladu protein, sef yr asid amino homosystin. Mae hyn wedyn yn achosi i homosystin gronni yn y gwaed mewn ffordd niweidiol. Heb ddiagnosis cynnar a dechrau triniaeth yn gynnar, gall plant ddatblygu niwed i'r ymennydd, gan gynnwys anawsterau dysgu. Efallai y bydd gan blant hefyd esgyrn tenau (osteoporosis), problemau gyda'r esgyrn a'r cymalau a gallant ddatblygu clotiau gwaed neu strôc.

Rhoddir triniaeth i atal homosystin rhag cronni. Mewn rhai babanod sydd ag HCU gellir rheoli lefel yr homosystin drwy roi fitamin B6 (pyridocsin). Os nad yw hyn yn effeithiol gellir trin HCU â deiet protein isel arbennig ac atchwanegiadau a meddyginiaethau ychwanegol.

Anhwylderau'r crymangelloedd (SCD)

Term yw anhwylderau'r crymangelloedd (SCD) sy'n disgrifio grŵp o anhwylderau lle mae haemoglobin mewn celloedd coch yn y gwaed yn annormal o ran strwythur. Mae hyn yn achosi i gelloedd coch yn y gwaed droi'n siâp tebyg i leuad gilgant neu gryman ffermwr pan fyddant yn ddiocsigenedig. Nid yw celloedd coch siâp cryman yn y gwaed mor hyblyg â chelloedd coch arferol yn y gwaed a gallant achosi rhwystr mewn pibellau gwaed bach.

Mae effeithiau clinigol yn codi o niwed i feinwe ac organau a achosir gan rwystrau pibellau gwaed ac o'r cynnydd o ran ymddatod celloedd gwaed coch. Gall effeithiau SCD gynnwys poen, anemia, clefyd melyn, pwysedd

gwaed uchel pwlmonaidd, arennau'n methu, dueg sydd wedi gordyfu a heintiau.

Mae sgrinio ar gyfer SCD yn galluogi dechrau triniaeth gynnar i atal heintiau ac i ddechrau monitro iechyd ac addysg rhieni. Dangoswyd bod sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig o'i gysylltu â phrofion diagnostig amserol, addysg rhieni a monitro clinigol, yn lleihau afiachedd a marwolaethau ar gyfer anhwylderau crymangelloedd yn ystod babandod a phlentyndod.

Rhoddir gwrthfotigau proffylactig i fabanod ag anhwylder crymangelloedd er mwyn atal haint, asid ffolig i gynnal y gyfradd uwch o gynhyrchu celloedd coch a meddyginiaeth ar gyfer argyfwng poenus. Rhoddir addysg a chymorth i rieni ddelio â'r cyfnodau o boen ac i nodi arwyddion argyfwng crymangelloedd er mwyn helpu i atal cymhlethdodau difrifol

Rhagor o wybodaeth

[Gwefan Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru](#)

Crynodeb o'r Polisiâu a Safonau

Polisi 1 – Cyflawnder y cynnig a chwmpas

Polisi 2 – Cydsyniad ar sail gwybodaeth

Polisi 3 – Casglu samplau yn amserol

Polisi 4 – Ansawdd y sampl smotyn gwaed a gwybodaeth ar y cerdyn

Polisi 5 – Derbynn sampl yn y labordy sgrinio newydd-anedig yn amserol

Polisi 6 - Prosesau cardiaau smotyn gwaed yn amserol

Polisi 7 - Derbynn i ofal clinigol yn amserol

Polisi 8 - Anfon canlyniadau at rieni yn amserol

POLISI 1 – CYFLAWNDER Y CYNNIG A CHWMPAS

Datganiad Polisi

Bydd pob babi newydd-anedig y mae Cymru yn lle preswyllo arferol iddo yn cael cynnig sgrinio smotyn gwaed pan fydd yn 5-6 diwrnod oed. Bydd pob baban sy'n dod i fyw yng Nghymru, hyd at un oed, yn cael cynnig sgrinio smotyn gwaed oni bai bod tystiolaeth iddo gael sgrinio priodol yn y DU eisoes, neu ei fod wedi'i wrthod yn y DU. Nid yw sgrinio ar gyfer ffibrosis systig yn cael ei gynnig i fabanod dros 8 wythnos oed oherwydd bod y prawf yn annibynadwy ar ôl yr amser hwn.

Safonau

Safon 1a	Cyflawnder y cynnig (babanod newydd-anedig)
Disgrifiad	Babanod newydd-anedig cymwys sydd â hysbysiad bod y cerdyn smotyn gwaed wedi'i dderbyn yn y labordy erbyn eu bod yn 14 diwrnod oed. Mae hyn yn hysbysu'r rhaglen o ganran y babanod newydd-anedig cymwys sydd wedi cael cynnig sgrinio ac sydd heb gael cynnig sgrinio.
Rhesymeg	Sicrhau bod babanod newydd-anedig cymwys yn cael cynnig sgrinio o fewn amserlen effeithiol.
Diffiniad Data	$\text{Babanod yn cael cynnig profion (newydd-anedig)} \div \text{Babanod cymwys (newydd-anedig)}$ - Mynegir fel canran <i>Babanod y cynnigir profion (newydd-anedig)</i> yw cyfanswm nifer y babanod newydd-anedig cymwys y mae cofnod bod sgrinio wedi'i dderbyn neu ei wrthod erbyn 14 diwrnod oed
Trothwy	99%
Adrodd	Data i'w goladu o NBSWS yn fisol, i'w adrodd i Grŵp Llywodraethu Clinigol a Sicrhau Ansawdd NBSW.
Cyfrifoldeb	- Byrddau Iechyd am gynnig y prawf sgrinio - Yr Adran Sgrinio am fonitro

Safon 1b Cyflawnder y cynnig (pob babi)

Disgrifiad	Pob baban cymwys (hyd at flwydd oed) sydd â hysbysiad bod y cerdyn smotyn gwaed wedi'i dderbyn yn y labordy neu hysbysiad o ganlyniad yn y DU neu wrthod sgrinio o fewn 18 diwrnod calendr i gael eu cofrestru ar y system wybodaeth. Mae hyn yn hysbysu'r rhaglen am ganran y babanod cymwys sydd wedi cael cynnig sgrinio ac sydd heb gael cynnig sgrinio.
Rhesymeg	I sicrhau bod pob baban cymwys wedi cael cynnig sgrinio.
Diffiniad Data	<i>Babanod sy'n cael cynnig profion (pob un) ÷ Babanod cymwys (pob un)</i> • Mynegir fel canran • <i>Babanod sy'n cael cynnig profion (pob un)</i> yw cyfanswm nifer y babanod cymwys y mae cofnod ar eu cyfer, o fewn 18 diwrnod calendr i gofrestru ar y system wybodaeth, ynghylch derbyn neu wrthod sgrinio
Trothwy	99%
Adrodd	Data i'w goladu o NBSWS yn fisol, i'w adrodd i Grŵp Llywodraethu Clinigol a Sicrhau Ansawdd NBSW.
Cyfrifoldeb	• Byrddau Iechyd am gynnis y prawf sgrinio • Yr Adran Sgrinio am fonitro

Safon 1c	Cwmpas (babanod newydd-anedig yn unig)
Disgrifiad	Babanod newydd-anedig cymwys sydd â chanlyniad sgrinio smotyn gwaed pendant ar gyfer pob un o'r 9 cyflwr erbyn iddynt gyrraedd 17 diwrnod oed. Mae hyn yn hysbysu'r rhaglen am ganran y babanod newydd-anedig cymwys sydd wedi manteisio ar y cynnig sgrinio ac y mae gan y labordy ganlyniad pendant wedi'i gofnodi ar eu cyfer, o fewn yr amserlen hon.
Rhesymeg	Sicrhau bod yr holl fabanod newydd-anedig cymwys y mae'r cynnig o sgrinio wedi'i dderbyn â chanlyniadau sgrinio pendant wedi'u cofnodi o fewn amserlen effeithiol.
Diffiniad Data	<i>Babanod a brofwyd (newydd-anedig) ÷ Babanod cymwys (newydd-anedig)</i> • Mynegir fel canran • <i>Babanod a brofwyd (newydd-anedig)</i> yw cyfanswm

	nifer y babanod newydd-anedig cymwys y mae cofnod bod sgrinio wedi'i dderbyn ar eu cyfer, ac y mae canlyniad pendant ar gyfer y 9 cyflwr wedi'i gofnodi ar eu cyfer erbyn 17 diwrnod oed Y dyddiad geni yw diwrnod 0 a'r dyddiad a brofwyd yw'r dyddiad y mae'r canlyniad ar y system
Trothwy	95%
Adrodd	Data i'w goladu o NBSWS yn fisol, i'w adrodd i Grŵp Llywodraethu Clinigol a Sicrhau Ansawdd NBSW.
Cyfrifoldeb	- Byrddau Iechyd am gynnig y prawf sgrinio - Yr Adran Sgrinio am fonitro

Safon 1d	Cwmpas (pob babi)
Disgrifiad	Babanod cymwys (hyd at flwydd oed) sydd â chanlyniad sgrinio smotyn gwaed pendant ar gyfer y 9 cyflwr o fewn 21 diwrnod calendr i gael eu cofrestru ar y system wybodaeth. Mae hyn yn hysbysu'r rhaglen am ganran y babanod cymwys sydd wedi manteisio ar y cynnig sgrinio ac y mae gan y labordy ganlyniad sgrinio smotyn gwaed pendant wedi'i gofnodi ar eu cyfer, o fewn yr amserlen hon.
Rhesymeg	Sicrhau bod yr holl fabanod cymwys y mae'r cynnig sgrinio wedi'i dderbyn â chanlyniadau sgrinio pendant wedi'u cofnodi o fewn amserlen effeithiol.
Diffiniad Data	<i>Babanod a brofwyd (pob un) ÷ Babanod cymwys (pob un)</i> - Mynegir fel canran <i>Babanod a brofwyd (pob un)</i> yw cyfanswm nifer y babanod cymwys y mae cofnod eu bod wedi derbyn sgrinio, ac y mae canlyniad pendant ar gyfer y 9 cyflwr wedi'i gofnodi ar eu cyfer o fewn 21 diwrnod calendr i gael eu cofrestru ar y system wybodaeth. - Y dyddiad a brofwyd yw'r dyddiad y mae'r canlyniad ar y system
Trothwy	95%
Adrodd	Data i'w goladu o NBSWS yn fisol, i'w adrodd i Grŵp Llywodraethu Clinigol a Sicrhau Ansawdd NBSW.
Cyfrifoldeb	Byrddau Iechyd am gynnig y prawf sgrinio

- | | |
|--|---|
| | <ul style="list-style-type: none">• Yr Adran Sgrinio am fonitro |
|--|---|

POLISI 2 - CYDSYNIAD AR SAIL GWYBODAETH

Datganiad Polisi

Rhaid i berson sydd â chyfrifoldeb rhiant gael digon o wybodaeth a chael cyfle i ofyn cwestiynau fel eu bod yn gallu rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth ar gyfer sgrinio smotyn gwaed.

Rhaid i berson sydd â chyfrifoldeb rhiant gael digon o wybodaeth a'r cyfle i wrthod cydsyniad i rywun gysylltu â nhw ar gyfer ymchwil yn y dyfodol.

Safonau

Safon 2a	Darparu gwybodaeth
Disgrifiad	Rhaid i berson sydd â chyfrifoldeb rhiant gael y daflen 'Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig - gwybodaeth i rieni' a chael y cyfle i ofyn cwestiynau i weithiwr iechyd proffesiynol priodol.
Rhesymeg	Rhaid i berson sydd â chyfrifoldeb rhiant gael y daflen wybodaeth yn amlinellu'r broses sgrinio a'r cyflyrau y sgriniwyd amdanynt, fel ei fod yn cael gwybod am natur y sgrinio ac yn gallu gofyn cwestiynau perthnasol.
Diffiniad Data	<i>Taflenni a gafwyd ÷ Babanod cymwys (sampl)</i> - Mynegir fel canran <i>Taflenni a gafwyd</i> - cwestiwn craidd i'w ofyn ar yr arolwg <i>Babanod cymwys (sampl)</i> - sampl gynrychiadol i'w chytuno
Trothwy	100% o arolygon wedi'u llenwi yn dangos bod y daflen wedi'i chael ac y cafwyd cyfle i ofyn cwestiynau
Adrodd	I'w adrodd i Grŵp Llywodraethu Clinigol a Sicrhau Ansawdd NBSW.
Cyfrifoldeb	- Byrddau Iechyd am ddarparu gwybodaeth - Yr Adran Sgrinio am fonitro. Bydd arolwg o farn rhieni yn cael ei gynnal yn flynyddol

Safon 2b	Cydsyniad ar sail gwybodaeth
----------	------------------------------

Disgrifiad	Rhaid i berson sydd â chyfrifoldeb rhiant roi cydsyniad ar sail gwybodaeth ar gyfer sgrinio smotyn gwaed i'w fabi.
Rhesymeg	Gweithdrefn feddygol fewnwithiol yw sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig ac ni ellir ei chynnal ar fabanod heb gael cydsyniad ar sail gwybodaeth gan berson sydd â chyfrifoldeb rhiant.
Diffiniad Data	<i>Cydsyniad ar sail gwybodaeth ÷ Babanod cymwys (sampl)</i> • Mynegir fel canran • <i>Cydsyniad ar sail gwybodaeth</i> - cwestiwn craidd i'w ofyn ar yr arolwg • <i>Babanod cymwys (sampl)</i> - sampl gynrychiadol i'w chytuno
Trothwy	100% o arolygon wedi'u llenwi yn dangos cydsyniad ar sail gwybodaeth
Adrodd	I'w adrodd i Grŵp Llywodraethu Clinigol a Sicrhau Ansawdd NBSW.
Cyfrifoldeb	• Byrddau Iechyd am gael cydsyniad • Yr Adran Sgrinio am fonitro. Bydd arolwg o farn rhieni yn cael ei gynnal yn flynyddol

POLISI 3 – CASGLU SAMPLAU YN AMSEROL

Datganiad Polisi

Dylai'r sampl smotyn gwaed newydd-anedig gael ei chymryd yn 5 diwrnod oed (gan gyfrif y diwrnod geni fel diwrnod 0) beth bynnag yw'r cyflwr meddygol presennol, cynamseroldeb neu statws bwydo. Mewn amgylchiadau eithriadol, fel pan fydd y babi wedi cael trallwysiad gwaed, gellir cymryd y sampl rhwng diwrnod 6 a diwrnod 8 yn gynhwysol.

Safonau

Safon 3a	Casglu'r sampl yn amserol (5-6 diwrnod oed)
Disgrifiad	Dylid cymryd y sampl rhwng 5 a 6 diwrnod oed (gan gyfrif y dyddiad geni fel diwrnod 0).
Rhesymeg	Cymryd y sampl yn 5-6 diwrnod oed yw safon y DU i gefnogi canlyniadau cywir sgrinio ac er mwyn cychwyn gofal priodol
Diffiniad Data	<i>Cymryd sampl (5-6 diwrnod) ÷ Derbynn pob cerdyn (babanod newydd-anedig)</i> • Mynegir fel canran • Mae <i>Cymryd sampl (5-6 diwrnod)</i> yn cyfateb i'r cardiau sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig arferol cychwynnol a dderbynnir yn y labordy sydd â sampl wedi'i chofnodi fel un a gymerwyd ar ddiwrnod 5-6 oed, gan gyfrif y diwrnod geni fel diwrnod 0 • Mae <i>pob cerdyn a dderbynnir (babanod newydd-anedig)</i> yn cyfateb i'r holl gardiau sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig arferol cychwynnol a dderbynnir yn y labordy sydd o fabanod cymwys
Trothwy	95%
Adrodd	Data i'w goladu o NBSWS yn fisol, i'w adrodd i Grŵp Llywodraethu Clinigol a Sicrhau Ansawdd NBSW.
Cyfrifoldeb	• Byrddau Iechyd am lenwi a dychwelyd cardiau • Labordy Sgrinio Newydd-anedig am gofnodi eu bod wedi derbyn y sampl • Yr Adran Sgrinio am fonitro

Safon 3b	Casglu ail samplau smotyn gwaed y gellir eu hosgoi yn amserol
Disgrifiad	Os gofynnir am ail sampl oherwydd smotiau gwaed annigonol neu o ansawdd gwael neu wybodaeth anghyflawn/anghywir wedi'i chofnodi ar y cerdyn (ail sampl y gellir ei hosgoi), yna rhaid cymryd hyn o fewn 3 diwrnod calendr i'r cais.
Rhesymeg	Mae lleihau'r amser ar gyfer cymryd ail sampl a'i hanfon yn cynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniadau sgrinio cywir, ac yn galluogi cychwyn gofal priodol mewn modd amserol.
Diffiniad Data	<i>Ail samplau a dderbyniwyd (a gymerwyd o fewn 3 diwrnod i'r cais) ÷ Ail samplau y gofynnwyd amdanynt</i> • Mynegir fel canran • <i>Ail samplau a dderbyniwyd (a gymerwyd o fewn 3 diwrnod i'r cais) yw'r samplau hynny a ddiffiniwyd uchod a dderbynnir yn y labordy ac sy'n nodi bod yr ail sampl wedi'i chymryd o fewn 3 diwrnod calendr i hysbysu'r bwrdd iechyd bod ail sampl yn ofynnol.</i> • <i>Ail samplau y gofynnwyd amdanynt yw'r holl samplau y mae angen eu hailadrodd naill ai oherwydd gwaed annigonol/anaddas ar y cerdyn neu wybodaeth annigonol wedi'i llenwi ar y cerdyn. Nid yw hyn yn cynnwys ail samplau sy'n angenrheidiol ar gyfer cadarnhau unrhyw rai o'r cyflyrau</i>
Trothwy	95%
Adrodd	<i>Data i'w coladu</i> o NBSWS yn fisol, i'w hadrodd i Grŵp Llywodraethu Clinigol a Sicrhau Ansawdd NBSW.
Cyfrifoldeb	• Byrddau Iechyd am lenwi a dychwelyd cardiau • Labordy Sgrinio Newydd-anedig am gyhoeddi cais am ail sampl ac am gofnodi dyddiad y sampl • Yr Adran Sgrinio am fonitro

Safon 3c	Casglu ail sampl CHT yn amserol ar gyfer babanod a anwyd cyn amser
Disgrifiad	Dylid cynnig ail brawf CHT geni cyn amser i'r holl fabanod sy'n cael eu geni ar lai na 32 wythnos o feichiogrwydd (llai na neu'n hafal i 31 wythnos +6 diwrnod) ar 28 diwrnod

	oed (gan gyfrif y dyddiad geni fel diwrnod 0) neu ar y diwrnod rhyddhau i'r cartref, pa un bynnag yw'r cynharaf.
Rhesymeg	Efallai y bydd gan fabanod a anwyd cyn amser lefelau is o hormon sy'n ysgogi'r thyroid ar adeg y prawf sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig arferol cyntaf, a fyddai'n effeithio ar y canlyniad sgrinio.
Diffiniad Data	<i>Ail sampl babanod a anwyd cyn amser (CHT) ÷ Babanod a anwyd cyn amser</i> • Mynegir fel canran • Mae <i>ail sampl babanod a anwyd cyn amser (CHT) yn cyfateb i'r holl fabanod a anwyd ar lai na 32 wythnos o feichiogrwydd sydd ag ail gerdyn sampl smotyn gwaed a dderbynnir yn y labordy a gafodd ei gymryd pan oeddent yn 28 diwrnod oed neu ar y diwrnod y cawsant eu rhyddhau o'r ysbyty</i> • Mae <i>Babanod a anwyd cyn amser</i> yn cyfateb i'r holl fabanod a anwyd ar lai na 32 wythnos o feichiogrwydd sydd â cherdyn sgrinio smotyn gwaed arferol cychwynnol a dderbynnir yn y labordy.
Trothwy	95%
Adrodd	Data i'w goladu o NBSWS yn fisol, i'w adrodd i Grŵp Llywodraethu Clinigol a Sicrhau Ansawdd NBSW.
Cyfrifoldeb	• Byrddau Iechyd am lenwi a dychwelyd cardiau • Labordy Sgrinio Newydd-anedig am gofnodi dyddiadau sampl • Yr Adran Sgrinio am fonitro

Safon 3d	Casglu ail samplau yn amserol ar gyfer hormon ysgogi thyroid ffiniol (TSH)
Disgrifiad	Dylai pob babi â chanlyniad TSH ffiniol gael cynnig ail sampl smotyn gwaed ar gyfer TSH rhwng 7 a 10 diwrnod ar ôl y sampl ffiniol wreiddiol. Y dadansoddiad o TSH yn y smotiau gwaed yw'r sail ar gyfer sgrinio CHT.
Rhesymeg	Mae lleihau'r amser ar gyfer cymryd ac anfon yr ail sampl yn cynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniadau sgrinio cywir, ac yn galluogi cychwyn gofal priodol mewn modd amserol.
Diffiniad Data	<i>Ail sampl ar gyfer TSH ffiniol ÷ Canlyniadau TSH ffiniol</i>

	• Mynegir fel canran • <i>Mae ail sampl ar gyfer TSH ffiniol yn cyfateb i'r holl fabanod â chanlyniad TSH ffiniol sydd ag ail gerdyn sampl smotyn gwaed ar gyfer TSH a dderbynnir yn y labordy a gafodd ei chasglu rhwng 7 a 10 diwrnod ar ôl y sampl ffiniol wreiddiol</i> • <i>Mae canlyniadau TSH ffiniol yn cyfateb i'r holl fabanod sydd â chanlyniad TSH ffiniol cychwynnol</i>
Trothwy	95%
Adrodd	Cynhelir archwiliad blynyddol gan y Labordy Sgrinio Newydd-anedig, i'w adrodd i Grŵp Llywodraethu Clinigol a Sicrhau Ansawdd NBSW.
Cyfrifoldeb	• Byrddau Iechyd am lenwi a dychwelyd cardiau • Labordy Sgrinio Newydd-anedig am gofnodi dyddiadau sampl • Yr Adran Sgrinio am fonitro

POLISI 4 – ANSAWDD Y SAMPL SMOTYN GWAED A GWYBODAETH AR Y CERDYN

Datganiad Polisi

Rhaid i'r sampl smotyn gwaed fod o ansawdd da i sicrhau cywirdeb mwyaf posibl y prawf sgrinio ac er mwyn atal yr angen am ail sampl y gellir ei hosgoi.

Cymerir sampl smotyn gwaed o ansawdd da ar yr adeg gywir, mae'n cynnwys digon o waed ac nid yw wedi'i halogi. Rhaid i'r cerdyn nodi rhif GIG y babi a chynnwys gwybodaeth ddemograffig gyflawn a chywir wedi'i chofnodi. Rhaid i'r cerdyn sgrinio gyrraedd yn y labordy o fewn 3 diwrnod gwaith i gymryd y sampl.

Safonau

Safon 4a	Cyfradd yr ail samplau y gellir eu hosgoi
Disgrifiad	Ail gardiau smotyn gwaed sy'n ofynnol oherwydd smotiau gwaed o ansawdd gwael neu bod gwybodaeth anghyflawn/anghywir wedi'i chofnodi ar y cerdyn.
Rhesymeg	Mae lleihau'r angen am ail samplau yn sicrhau cynifer o ganlyniadau sgrinio cywir ac amserol â phosibl. Mae ail samplau y gofynnir amdanynt am resymau y gellir eu hosgoi yn achosi oedi o ran nodi a thrin babanod sydd wedi cael prawf sgrinio positif, gorbryder a thrallod i deuluoedd ac mae'n gwastraffu adnoddau gofal iechyd.
Diffiniad Data	<i>Ail samplau y gellir eu hosgoi ÷ Yr holl gardiau a dderbynnir</i> • Mynegir fel canran • <i>Mae ail samplau y gellir eu hosgoi yn cyfateb i'r holl geisiadau am ail sampl a roddir oherwydd:</i> ○ Sampl gwaed annigonol/o ansawdd gwael ○ Heb gofnodi rhif GIG dilys ar gyfer y babi ○ Sampl/cerdyn anaddas - sampl wedi'i halogi, smotiau gwaed wedi'u cywasgu, sampl wedi'i chymryd pan oedd y babi yn rhy ifanc (ar neu cyn 4 diwrnod), sampl yn cael ei chludo am >14 diwrnod ○ Cerdyn wedi dod i ben • Mae <i>Pob cerdyn wedi'i dderbyn</i> yn cyfateb i'r holl gardiau smotyn gwaed a dderbynnir yn y labordy ac eithrio cardiau sy'n nodi bod yr holl sgrinio wedi'i

	wrthod Data i'w casglu yn ôl rheswm penodol am gais am ail sampl
Trothwy	$\leq 2\%$
Adrodd	Data i'w goladu o NBSWS yn fisol, i'w adrodd i Grŵp Llywodraethu Clinigol a Sicrhau Ansawdd NBSW.
Cyfrifoldeb	- Byrddau Iechyd am lenwi'r cerdyn smotyn gwaed yn gywir - Labordy Sgrinio Newydd-anedig am gofnodi ail samplau - Yr Adran Sgrinio am fonitro

Safon 4b	Ansawdd y sampl
Disgrifiad	Ail gardiau smotyn gwaed sy'n ofynnol oherwydd smotiau gwaed o ansawdd gwael.
Rhesymeg	Mae lleihau'r angen am ail samplau yn sicrhau cynifer o ganlyniadau sgrinio cywir ac amserol â phosibl. Mae ail samplau y gofynnir amdanynt am resymau y gellir eu hosgoi yn achosi oedi o ran nodi a thrin babanod sydd wedi cael prawf sgrinio positif, gorbryder a thrallod i deuluoedd ac mae'n gwastraffu adnoddau gofal iechyd.
Diffiniad Data	<i>Ail samplau y gellir eu hosgoi oherwydd samplau o ansawdd gwael ÷ Yr holl gardiau a dderbynnir</i> - Mynegir fel canran - Mae ail samplau y gellir eu hosgoi ar gyfer samplau o ansawdd gwael yn cyfateb i'r holl geisiadau am ail samplau a roddir oherwydd: - Sampl smotyn gwaed annigonol - Cymhwyso anghywir – samplau o ansawdd gwael - Sampl wedi'i halogi, ei chywasgu neu ei difrodi - Mae <i>Pob cerdyn wedi'i dderbyn</i> yn cyfateb i'r holl gardiau smotyn gwaed a dderbynnir yn y labordy ac eithrio cardiaid sy'n nodi bod yr holl sgrinio wedi'i wrthod - Data i'w casglu yn ôl rheswm penodol am gais am ail sampl
Trothwy	$\leq 1.5\%$

Adrodd	Data i'w goladu o NBSWS yn fisol, i'w adrodd i Grŵp Llywodraethu Clinigol a Sicrhau Ansawdd NBSW.
Cyfrifoldeb	• Byrddau Iechyd am lenwi'r cerdyn smotyn gwaed yn gywir • Labordy Sgrinio Newydd-anedig am gofnodi ail samplau • Yr Adran Sgrinio am fonitro

Safon 4c	Rhif GIG ar y cerdyn smotyn gwaed
Disgrifiad	Cardiau smotyn gwaed a dderbynnir yn y Labordy Sgrinio Newydd-anedig sydd â rhif GIG dilys wedi'i gofnodi ar gyfer y babi.
Rhesymeg	Mae rhif GIG dilys yn ofynnol i nodi'r babi y mae'r sampl yn gysylltiedig ag ef yn gywir, ac mae'n atal yr angen i gymryd ail sampl.
Diffiniad Data	<i>Cardiau â Rhif GIG ÷ Yr holl gardiau a dderbynnir</i> • Mynegir fel canran • Mae <i>cardiau â Rhif GIG</i> yn cyfateb i'r holl gardiau smotyn gwaed a dderbynnir yn y labordy sydd â rhif GIG dilys wedi'i gofnodi ar gyfer y babi • Mae <i>Pob cerdyn wedi'i dderbyn</i> yn cyfateb i'r holl gardiau smotyn gwaed a dderbynnir yn y labordy ac eithrio cardiau sy'n nodi bod yr holl sgrinio wedi'i wrthod
Trothwy	99%
Adrodd	Data i'w goladu o NBSWS yn fisol, i'w adrodd i Grŵp Llywodraethu Clinigol a Sicrhau Ansawdd NBSW.
Cyfrifoldeb	• Byrddau Iechyd am lenwi'r cerdyn smotyn gwaed yn gywir • Labordy Sgrinio Newydd-anedig am gofnodi rhifau GIG • Yr Adran Sgrinio am fonitro

Safon 4d	Samplau'n cael eu cymryd gan unigolion cofrestredig sy'n cymryd samplau
Disgrifiad	Cardiau smotyn gwaed a dderbynnir yn y Labordy Sgrinio Newydd-anedig sydd wedi'u cymryd gan unigolion cofrestredig sy'n cymryd samplau ac sy'n cynnwys cod adnabod (PIN NMC neu god adnabod NBSW) wedi'u cofnodi'n gywir. Nid yw'r safon wedi dod yn orfodol a bydd yn cael ei defnyddio at ddibenion monitro yn unig.
Rhesymeg	Mae cofrestru'r rhai sy'n cymryd samplau a chydymffurfio o ran cofnodi eu cod adnabod ar y cerdyn yn galluogi adrodd yn gywir ar berfformiad samplu smotyn gwaed i'r gwasanaethau mamolaeth, newyddenedigol, pediatrig ac ymwelwyr iechyd. Mae hyn yn galluogi nodi a rheoli anghenion hyfforddi i wella ansawdd samplau.
Diffiniad Data	<i>Cardiau â PIN NMC neu god adnabod NBSW wedi'u cofnodi a dderbynnir gan LIMS ÷ Pob cerdyn a dderbynnir</i> • Mynegir fel canran • Mae cardiau â PIN NMC neu god adnabod NBSW wedi'u cofnodi a dderbynnir gan y System Rheoli Gwybodaeth Labordy yn cyfateb i'r holl gardiau smotyn gwaed a dderbynnir yn y labordy sydd wedi'u cymryd gan unigolion cofrestredig sy'n cymryd samplau ac sy'n cynnwys cod adnabod (PIN NMC neu god adnabod NBSW) wedi'i gofnodi'n gywir a'i dderbyn ar LIMS • Mae Pob cerdyn wedi'i dderbyn yn cyfateb i'r holl gardiau smotyn gwaed a dderbynnir yn y labordy ac eithrio cardiau sy'n nodi bod yr holl sgrinio wedi'i wrthod
Trothwy	98%
Adrodd	Data i'w casglu o NBSWS yn fisol, i'w adrodd i Grŵp Llywodraethu Clinigol a Sicrhau Ansawdd NBSW.
Cyfrifoldeb	• Byrddau iechyd am gofrestru unigolion sy'n cymryd samplau a llenwi'r cerdyn smotyn gwaed yn gywir • Labordy Sgrinio Newydd-anedig am gofnodi codau adnabod unigolion sy'n cymryd samplau • Yr Adran Sgrinio am fonitro

POLISI 5 – DERBYN SAMPL YN Y LABORDY SGRINIO NEWYDD-ANEDIG YN AMSEROL

Datganiad Polisi

Rhaid i'r sampl smotyn gwaed newydd-anedig gael ei derbyn yn y labordy sgrinio newydd-anedig o fewn 3 diwrnod gwaith i'w chymryd. I hwyluso hyn, dylid anfon y sampl i Labordy Sgrinio Newydd-anedig Cymru ar yr un diwrnod y cafodd ei chymryd, gan ddefnyddio amlen ragdaledig NBSW.

Safon

Safon 5	Derbyn y cerdyn smotyn gwaed i'r labordy sgrinio newydd-anedig yn amserol
Disgrifiad	Cardiau smotyn gwaed a dderbynnir o fewn 3 diwrnod gwaith i lenwi'r cerdyn (ar gyfer samplau neu wrthod).
Rhesymeg	Mae lleihau'r amser ar gyfer sampl a dderbynnir yn y labordy yn cynyddu'r tebygolrwydd o ganlyniadau sgrinio cywir ac yn galluogi cychwyn gofal priodol.
Diffiniad Data	<i>Cardiau a dderbynnir (o fewn 3 diwrnod gwaith) ÷ Yr holl gardiau a dderbynnir</i> • Mynegir fel canran • Mae <i>Cardiau a dderbynnir (o fewn 3 diwrnod gwaith)</i> yn cyfateb i'r holl gardiau smotyn gwaed a dderbynnir yn y labordy o fewn 3 diwrnod gwaith i'w llenwi • Mae'r <i>Holl gardiau a dderbynnir</i> yn cyfateb i'r cardiau sgrinio smotyn gwaed arferol cychwynnol (gan gynnwys y rhai sy'n nodi gwrthod) a dderbynnir yn y labordy
Trothwy	95%
Adrodd	Data i'w goladu o NBSWS yn fisol, i'w adrodd i Grŵp Llywodraethu Clinigol a Sicrhau Ansawdd NBSW.
Cyfrifoldeb	• Byrddau Iechyd am lenwi ac anfon cardiau smotyn gwaed • Labordy Sgrinio Newydd-anedig am gofnodi derbyn cerdyn smotyn gwaed • Yr Adran Sgrinio am fonitro

POLISI 6 - PROSESAU CARDIAU SMOTYN GWAED YN AMSEROL

Datganiad Polisi

Rhaid dadansoddi cardiau smotyn gwaed ac adrodd y canlyniadau mewn modd amserol.

Safonau

Safon 6a	Prosesu holl samplau sgrinio positif IMD a CHT yn amserol
Disgrifiad	Dylai samplau gael eu dadansoddi a chychwyn atgyfeirio clinigol o fewn 3 diwrnod gwaith, ar gyfer babanod ag IMD (ac eithrio HCU) neu CHT.
Rhesymeg	Mae prosesu'r sampl a chychwyn atgyfeirio clinigol o fewn 3 diwrnod gwaith yn sicrhau'r cyfle gorau posibl ar gyfer ymyriad prydlon a phriodol.
Diffiniad Data	<i>Nifer y canlyniadau sgrinio positif ac atgyfeirio clinigol a gychwynnir o fewn 3 diwrnod gwaith i dderbyn sampl ÷ Yr holl ganlyniadau sgrinio positif a geir</i> • Mynegir fel canran • Mae <i>Nifer y canlyniadau sgrinio positif ac atgyfeirio clinigol a gychwynnir o fewn 3 diwrnod gwaith i dderbyn sampl</i> yn cyfateb i'r canlyniadau sgrinio positif hynny a gafwyd ar gyfer yr IMD a CHT a lle cychwynnir atgyfeirio clinigol o fewn 3 diwrnod gwaith i dderbyn sampl smotyn gwaed addas i'r labordy • Mae'r <i>Holl ganlyniadau sgrinio positif a geir</i> yn cyfateb i'r holl ganlyniadau sgrinio positif sydd ar gael ar gyfer yr IMD a CHT
Trothwy	100%
Adrodd	Data i'w coladu o LIMS ac NBSWS yn flynyddol, i'w hadrodd yn flynyddol i Grŵp Llywodraethu Clinigol a Sicrhau Ansawdd NBSW.
Cyfrifoldeb	• Labordy Sgrinio Newydd-anedig am brosesu samplau • Yr Adran Sgrinio am fonitro

Safon 6b	Prosesu'r holl samplau sgrinio positif ar gyfer CF yn amserol
Disgrifiad	Dylai samplau gael eu dadansoddi a chychwyn atgyfeirio clinigol o fewn 25 diwrnod, ar gyfer babanod â CF.
Rhesymeg	Mae prosesu'r sampl a chychwyn atgyfeirio clinigol o fewn 25 diwrnod gwaith yn sicrhau'r cyfle gorau posibl ar gyfer ymyriad prydlon a phriodol.
Diffiniad Data	<i>Nifer y canlyniadau sgrinio positif ac atgyfeirio clinigol a gychwynnir o fewn 25 diwrnod gwaith i dderbyn sampl ÷ Yr holl ganlyniadau sgrinio positif a geir</i> • Mynegir fel canran • Mae <i>Nifer y canlyniadau sgrinio positif ac atgyfeirio clinigol a gychwynnir o fewn 25 diwrnod gwaith i dderbyn sampl</i> yn cyfateb i'r canlyniadau sgrinio positif hynny a gafwyd ar gyfer CF a lle cychwynnir atgyfeirio clinigol o fewn 25 diwrnod i dderbyn sampl smotyn gwaed addas i'r labordy • Mae'r <i>Holl ganlyniadau sgrinio positif a geir</i> yn cyfateb i'r holl ganlyniadau sgrinio positif sydd ar gael ar gyfer CF
Trothwy	95%
Adrodd	Data i'w coladu o LIMS ac NBSWS yn flynyddol, i'w hadrodd yn flynyddol i Grŵp Llywodraethu Clinigol a Sicrhau Ansawdd NBSW.
Cyfrifoldeb	• Labordy Sgrinio Newydd-anedig am brosesu samplau • Yr Adran Sgrinio am fonitro

Safon 6c	Prosesau'r holl samplau sgrinio positif ar gyfer SCD yn amserol
Disgrifiad	Dylai samplau gael eu dadansoddi a chychwyn atgyfeirio clinigol o fewn 42 diwrnod, ar gyfer babanod ag SCD.
Rhesymeg	Mae prosesu'r sampl a chychwyn atgyfeirio clinigol o fewn

	42 diwrnod gwaith yn sicrhau'r cyfle gorau posibl ar gyfer ymyriad prydlon a phriodol.
Diffiniad Data	Nifer y canlyniadau sgrinio positif ac atgyfeirio clinigol a gychwynnir o fewn 42 diwrnod gwaith i dderbyn sampl ÷ Yr holl ganlyniadau sgrinio positif a geir • Mynegir fel canran • Mae <i>Nifer y canlyniadau sgrinio positif a chychwyn atgyfeirio clinigol o fewn 42 diwrnod gwaith i dderbyn sampl</i> yn cyfateb i'r canlyniadau sgrinio positif hynny a gafwyd ar gyfer SCD a lle cychwynnir atgyfeirio clinigol o fewn 42 diwrnod i dderbyn i'r labordy • Mae'r <i>Holl ganlyniadau sgrinio positif a geir</i> yn cyfateb i'r holl ganlyniadau sgrinio positif ar gyfer SCD
Trothwy	95%
Adrodd	Data i'w coladu o LIMS ac NBSWS yn flynyddol, i'w hadrodd yn flynyddol i Grŵp Llywodraethu Clinigol a Sicrhau Ansawdd NBSW.
Cyfrifoldeb	• Labordy Sgrinio Newydd-anedig am brosesu samplau • Yr Adran Sgrinio am fonitro

POLISI 7 - DERBYN I OFAL CLINIGOL YN AMSEROL

Datganiad Polisi

Rhaid i fabanod sydd â chanlyniadau sgrinio positif ar gyfer un neu ragor o'r cyflyrau y sgrinnir amdanynt gael eu derbyn i ofal clinigol mewn modd amserol.

Safonau

Safon 7a	Derbyn babanod sydd â chanlyniadau sgrinio positif ar gyfer IMD i ofal clinigol yn amserol
Disgrifiad	Dylai babanod y nodwyd eu bod wedi profi'n bositif ar gyfer sgrinio unrhyw rai o'r IMD (ac eithrio HCU) fynd i'w hapwyntiad clinigol cyntaf erbyn 14 diwrnod oed.
Rhesymeg	Mae derbyn i ofal clinigol erbyn 14 diwrnod oed yn ei gwneud yn bosibl rhoi cadarnhad diagnostig amserol a chychwyn triniaeth.
Diffiniad Data	<i>Derbyniwyd i ofal clinigol ÷ Canlyniadau sgrinio positif</i> • Mynegir fel canran • Mae <i>Derbyniwyd i ofal clinigol</i> yn cyfateb i'r holl fabanod sy'n cael canlyniad sgrinio positif ar gyfer unrhyw rai o'r IMD ac yn mynd i'w hapwyntiad clinigol cyntaf erbyn 14 diwrnod oed • Mae <i>canlyniadau sgrinio positif</i> yn cyfateb i'r holl fabanod sy'n cael canlyniad sgrinio positif ar gyfer unrhyw un o'r IMD • Adroddir yn unigol ar gyfer GA1, HCU, IVA, MSUD, MCADD a PKU
Trothwy	100%
Adrodd	Data i'w coladu o'r Labordy Sgrinio Newydd-anedig yn flynyddol, i'w hadrodd yn flynyddol i Grŵp Llywodraethu Clinigol a Sicrhau Ansawdd NBSW.
Cyfrifoldeb	• Byrddau Iechyd am gasglu a dychwelyd y smotiau gwaed i'r labordy • Labordy Sgrinio Newydd-anedig am brosesu samplau smotyn gwaed a chychwyn atgyfeirio babanod • Byrddau iechyd am dderbyn babanod i ofal clinigol • Yr Adran Sgrinio am fonitro

--	--

Safon 7b	Derbyn babanod sydd â chanlyniadau sgrinio positif ar gyfer CHT i ofal clinigol yn amserol
Disgrifiad	Dylai babanod y nodwyd eu bod wedi profi'n bositif ar gyfer sgrinio ar gyfer CHT yn dilyn sampl sgrinio gychwynnol fynd i'w hapwyntiad clinigol cyntaf erbyn 14 diwrnod oed. Dylai babanod sy'n cael canlyniad ffiniol cychwynnol sydd wedyn yn cael eu nodi fel rhai a sgriniwyd yn bositif ar yr ail sampl fynd i'w hapwyntiad clinigol cyntaf erbyn 21 diwrnod oed.
Rhesymeg	Mae derbyn i ofal clinigol o fewn yr amserlenni a nodwyd uchod yn ei gwneud yn bosibl rhoi cadarnhad diagnostig amserol a chychwyn triniaeth.
Diffiniad Data	<i>Derbyniwyd i ofal clinigol ÷ Canlyniadau sgrinio positif</i> • Mynegir fel canran • Mae <i>Derbyniwyd i ofal clinigol</i> yn cyfateb i'r holl fabanod sy'n cael canlyniad sgrinio positif ar gyfer CHT ar y sampl sgrinio cychwynnol ac yn mynd i'w hapwyntiad clinigol cyntaf erbyn 14 diwrnod oed, a'r babanod hynny sy'n cael canlyniad sgrinio positif ar gyfer CHT yn dilyn canlyniad ffiniol cychwynnol ac yn mynd i'w hapwyntiad erbyn 21 diwrnod oed • Mae <i>canlyniadau sgrinio positif</i> yn cyfateb i'r holl fabanod sy'n cael canlyniad sgrinio positif ar gyfer CHT
Trothwy	100%
Adrodd	Data i'w coladu o'r Labordy Sgrinio Newydd-anedig yn flynyddol, i'w hadrodd yn flynyddol i Grŵp Llywodraethu Clinigol a Sicrhau Ansawdd NBSW.
Cyfrifoldeb	• Byrddau Iechyd am gasglu a dychwelyd y smotiau gwaed i'r labordy • Labordy Sgrinio Newydd-anedig am brosesu samplau smotyn gwaed a chychwyn atgyfeirio babanod • Byrddau iechyd am dderbyn babanod i ofal clinigol • Yr Adran Sgrinio am fonitro

--	--

Safon 7c	Derbyn babanod sydd â chanlyniadau sgrinio positif ar gyfer CF i ofal clinigol yn amserol
Disgrifiad	Dylai babanod y nodwyd eu bod wedi profi'n positif ar gyfer sgrinio CF fynd i'w hapwyntiad clinigol cyntaf erbyn 28 diwrnod oed.
Rhesymeg	Mae derbyn i ofal clinigol erbyn 28 diwrnod oed yn ei gwneud yn bosibl rhoi cadarnhad diagnostig amserol a chychwyn triniaeth.
Diffiniad Data	<i>Derbyniwyd i ofal clinigol ÷ Canlyniadau sgrinio positif</i> • Mynegir fel canran • Mae <i>Derbyniwyd i ofal clinigol</i> yn cyfateb i'r holl fabanod sy'n cael canlyniad sgrinio positif ar gyfer CF ac yn mynd i'w hapwyntiad clinigol cyntaf erbyn 28 diwrnod oed • Mae <i>canlyniadau sgrinio positif</i> yn cyfateb i'r holl fabanod sy'n cael canlyniad sgrinio positif ar gyfer CF
Trothwy	95%
Adrodd	Data i'w coladu o'r Labordy Sgrinio Newydd-anedig yn flynyddol, i'w hadrodd yn flynyddol i Grŵp Llywodraethu Clinigol a Sicrhau Ansawdd NBSW.
Cyfrifoldeb	• Byrddau Iechyd am gasglu a dychwelyd y smotiau gwaed i'r labordy • Labordy Sgrinio Newydd-anedig am brosesu samplau a chychwyn atgyfeirio babanod • Gwasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan am brosesu samplau ar gyfer sgrinio mwrtaniad CF • Byrddau iechyd am dderbyn babanod i ofal clinigol • Yr Adran Sgrinio am fonitro

Safon 7d	Derbyn babanod sydd â chanlyniadau sgrinio positif ar gyfer SCD i ofal clinigol yn amserol
Disgrifiad	Dylai babanod y nodwyd eu bod wedi profi'n positif ar gyfer sgrinio SCD fynd i'w hapwyntiad clinigol cyntaf erbyn 90 diwrnod oed.
Rhesymeg	Mae derbyn i ofal clinigol erbyn 90 diwrnod oed yn ei

	gwneud yn bosibl rhoi cadarnhad diagnostig amserol a chychwyn triniaeth.
Diffiniad Data	<i>Derbyniwyd i ofal clinigol ÷ Canlyniadau sgrinio positif</i> • Mynegir fel canran • Mae <i>Derbyniwyd i ofal clinigol</i> yn cyfateb i'r holl fabanod sy'n cael canlyniad sgrinio positif ar gyfer SCD ac yn mynd i'w hapwyntiad clinigol cyntaf erbyn 90 diwrnod oed • Mae <i>canlyniadau sgrinio positif</i> yn cyfateb i'r holl fabanod sy'n cael canlyniad sgrinio positif ar gyfer SCD
Trothwy	90%
Adrodd	Data i'w coladu o'r Labordy Sgrinio Newydd-anedig yn flynyddol, i'w hadrodd yn flynyddol i Grŵp Llywodraethu Clinigol a Sicrhau Ansawdd NBSW.
Cyfrifoldeb	• Byrddau Iechyd am gasglu ac anfon y smotiau gwaed i'r labordy • Labordy Sgrinio Newydd-anedig am brosesu samplau smotyn gwaed a chychwyn atgyfeirio babanod • Byrddau iechyd am dderbyn babanod i ofal clinigol • Yr Adran Sgrinio am fonitro

POLISI 8 – ANFON CANLYNIADAU AT RIENI YN AMSEROL

Datganiad Polisi

O fewn 6 wythnos i lenwi'r cerdyn smotyn gwaed gan yr unigolyn a gymerodd y sampl, anfonir llythyr at rieni babanod sydd wedi cael prawf sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig, neu gerdyn smotyn gwaed yn nodi gwrthod a dderbynnir yn y labordy, a bydd y llythyr yn nodi'r canlyniadau sgrinio neu'r prawf/profion a wrthodwyd. Bydd taflen wybodaeth sy'n esbonio'r canlyniadau sgrinio yn cael ei hanfon at y rhieni gyda'r llythyr hwn.

Safon

Safon 8	Cyfathrebu canlyniadau i rieni
Disgrifiad	Bydd llythyr yn datgan canlyniadau'r prawf sgrinio neu wrthod prawf/profion yn cael ei anfon at rieni o fewn 6 wythnos i lenwi'r cerdyn smotyn gwaed gan yr unigolyn a gymerodd y sampl.
Rhesymeg	Mae'n bwysig bod rhieni'n cael gwybod am ganlyniadau'r profion sgrinio o fewn 6 wythnos i leihau unrhyw orbryder.
Diffiniad Data	<i>Canlyniadau wedi'u hanfon (6 wythnos) ÷ Babanod a brofwyd</i> • Mynegir fel canran • Mae <i>Canlyniadau wedi'u hanfon (6 wythnos)</i> yn cyfateb i'r holl fabanod y mae canlyniadau'r profion sgrinio wedi'u hanfon at y rhieni o fewn 6 wythnos i lenwi'r cerdyn smotyn gwaed • Mae <i>Babanod a brofwyd</i> yn cyfateb i'r holl fabanod y mae cerdyn sgrinio smotyn gwaed arferol cychwynnol wedi'i dderbyn gan y labordy ar gyfer ei brofi, neu'n datgan gwrthod prawf/profion
Trothwy	100%
Adrodd	Nid yw'n bosibl casglu data gan NBSWS ar hyn o bryd oherwydd bod newidiadau systemau yn ofynnol i wneud hyn.
Cyfrifoldeb	• Yr Adran Sgrinio am anfon canlyniadau ac am fonitro